

DOSBARTHIAD DIOGELWCH - SWYDDOGOL

CYFARWYDDIADAU TRIN - Dim cyfyngiad ar gylchredeg

DATGELADWY (FOI/CYNLLUN CYHOEDDI) - Ydy



**Adrodd wrth:** Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain British Transport Police Authority

**Dyddiad:** 26/09/2023

**Pwnc:** Adroddiad y Prif Gwnstabl Chief Constable's Report

**Ar gyfer:** Nodi Noting

## 1. PWRPAS Y PAPUR

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw Aelodau Awdurdod yr Heddlu at eitemau rwyf yn ystyried y bydd y Pwyllgor yn dymuno eu nodi. Yn anffodus, bu'n rhaid i mi anfon ymddiheuriadau i'r cyfarfod hwn gan fod fy Arwisgiad fel Comander yr Urdd Frenhinol Fictoraidd yn cael ei gynnal yng Nghastell Windsor ar yr un diwrnod.
- 1.2 Mae BTP yn aml yn delio â digwyddiadau trasig ar y rheilffordd, er efallai ddim yn fwy felly na marwolaeth y Rhingyll Graham Saville. Cafodd Graham, un o swyddogion ymateb Heddlu Swydd Nottingham, anafiadau angheuol pan gafodd ei daro gan drên wrth iddo geisio achub dyn gofidus yn Balderton ar 24 Awst 2023. Rwy'n cynnig fy nghydymdeimladau dwysaf i'w anwyliaid ar yr adeg ddinistriol hon. Hoffwn hefyd ddiolch i'r holl swyddogion a staff a fynychodd y lleoliad am eu gwaith eithriadol mewn amgylchiadau anodd iawn, ac i'n tîm lles am y cymorth a ddarparwyd ganddynt.

## 2. DIWEDDARIAD ARIANNOL

- 2.1 Mae hwn yn ffocws sylweddol ar hyn o bryd, felly teimlais ei bod yn bwysig treulio amser yn adlewyrchu'r heriau sy'n ein hwynebu. Fel y clywodd y Pwyllgor Perfformiad a Chyflawni yn ddiweddar, mae rheoli ein cyllideb yn barhaus yn 2023-24 yn heriol. Mae hyn yn bennaf oherwydd i ni ddechrau'r flwyddyn gyda £9.5m o bwysau heb eu cyllidebu. Cytunwyd ar ran o hyn (£5.1m) gan BTPA y tu allan i'r gyllideb graidd, gyda'r bwriad y byddai cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio fel y llwybr ariannu. Erbyn 2023, roedd yn amlwg nad oedd y llwybr hwn yn hygyrch yn awtomatig i BTP/A. Ers hynny mae BTPA wedi sicrhau cwmpas cyllideb yr Adran Trafnidiaeth o £2.1m ar gyfer costau gŵyl banc y Coroni, Ymarfer a Phrofi a'r Rhaglen Galluogi Genedlaethol. Mae hyn yn gadael pwysau blaenoriaethol heb eu cyllidebu megis Trwsio'r Hanfodion,

Llesiant a Safonau Proffesiynol heb eu cefnogi, ynghyd ag elfen o or-raglennu BTP cyn y flwyddyn ariannol. Mae'n siom fawr i mi ac i'm Grŵp Prif Swyddogion nad ystyriwyd bod y meysydd hyn yn angenrheidiol i'w cyllidebu amdanynt. Yn ogystal, rydym yn wynebu pwysau newydd yn ystod y flwyddyn megis costau cynyddol gwrandawiadau camymddwyn, yswiriant, a chwyddiant nad yw'n ymwneud â chyflogau yn ogystal â phwysau incwm sy'n dod i'r amlwg sy'n adlewyrchu swyddi gweigion mewn EPSAs a meysydd a ariennir gan Grant lle bu'n rhaid i ni ddargyfeirio adnoddau i BAU i ateb y galw (£3.6m).

- 2.2 Yn gynnar yn y flwyddyn ariannol, roedd yn amlwg y byddai diffyg sicrwydd cyllideb yn creu problem sylweddol. Er ein bod wedi cynnal lefelau tebyg o bwysau heb eu cyllidebu mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi bod â bwlch amlwg rhwng lefelau adnoddau a sefydliad wedi'i gyllidebu. Arweiniod y tanwariant 'cyflog' hwn i bwysau 'prynu allan' yn ystod y flwyddyn, gan fynd â ni'n llawer agosach at y gyllideb na'r arwyddion cynharach. Mae eleni yn wahanol. Mae gennym gyllideb gyflog sydd bron yn union yr un fath â niferoedd ein gweithlu presennol ac arfaethedig. Mae ein prosesau recriwtio a fetio yn llawer slicach, gan ein galluogi i recriwtio pobl yn gynt. Mae hyn yn golygu, yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, nad oes unrhyw danwariant cyflog sylweddol i wrthbwysu pwysau heb eu cyllidebu. Rydym hefyd yn well am gadw pobl nag erioed o'r blaen. Mae cyfraddau ymadawyr eleni wedi bod yn is na'r rhagolygon ar gyfer y pumed cyfnod yn olynol; yn groes i'r duedd plismona cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw ein swyddi gwag yn y lle y dymunwn iddynt fod, o ran perfformiad ac adennill incwm – gan effeithio'n anghymesur ar TfL ac EPSAs. Yn olaf, mae gwariant goramser yn parhau i gynyddu i bontio'r bwlch rhwng cryfder ein gweithlu a gofynion plismona rheng flaen. Mae hon yn gyfres ddigynsail o amgylchiadau i ni eu rheoli.
- 2.3 Fel y byddech yn ei ddisgwyl, cyfarfûm â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ym mis Mehefin i drafod ein pryderon a cheisiwyd safbwynt cynnar ar ragdybiaethau cadarn a / neu gamau unioni, oherwydd po hiraf y bu gennym bwysau hysbys o'r arwyddocâd hwn heb lwybr ariannu diogel, po anoddaf fyddai datrys a rhagweld yn gywir. Safbwynt yr Heddlu'n bennaf oedd gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth i geisio sicrwydd cyllidebol ar gyfer y gorwariant ac yn ail i geisio cymorth BTPA i godi'r gorwariant a fwriadwyd gennym i'r diwydiant, a ystyrir fel cost plismona'r rheilffyrdd yn 2023-24. Gan fethu'r naill gwrs neu'r llall, y cynnig oedd rheoli - trwy reoli recriwtio - elfen o'r gorwariant. Byddai rhewi recriwtio ar raddfa gyfan ym mis Mehefin wedi arbed £5.9m yn unig, i roi syniad o gwmpas cyfyngedig ein dewisiadau yn ystod y flwyddyn. Daeth ein nodyn ym mis Mehefin i'r Prif Weithredwr i'r casgliad "Rhaid i BTPA fod yn glir, gyda phob diwrnod sy'n mynd heibio cyn i'r cyfarwyddyd hwn naill ai gael ei egluro neu ei roi'n ffurfiol, fod hyfywedd rhewi recriwtio fel opsiwn yn lleihau."

- 2.4 Yn dilyn y trafodaethau hyn, y cyfeiriad oedd aros am ragolwg Ch1 a setliad PRRB. Gyda setliad cyflog islaw'r 4% a gyllidebwyd, roedd yn bosibl y byddai elfen o'r gorwariant yn ystod y flwyddyn yn cael ei 'brynu allan'. Ni wireddwyd hyn a dyfarnodd PRRB 7%, sy'n cyfateb i effaith ychwanegol o £5m yn ystod y flwyddyn. Tra bod Lluoedd eraill wedi mabwysiadu setliadau uwch (£1,000 y swyddog), ni wnaeth BTP unrhyw gais o'r fath. Er bod ymrwymiad BTPA i ariannu effaith PRRB yn ystod y flwyddyn wedi lleddfu pwysau ychwanegol, roedd y gorwariant a ragwelwyd yn parhau i fod oddeutu £10m. Roedd hyn er gwaethaf amrywiaeth o fesurau realaeth, oedi, a dadgomisiynu yn chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Hoffwn atgoffa'r Aelodau mai cyflogau yw 71% o'n cyllideb graidd, 2% Llinellau Sirol, 1% BTPA, 17% di-dâl, sy'n sefydlog yn y tymor canolig (prydlesi, contractau ac ati), 3% goramser a 6% yn amrywio. di-dâl (petrol, gwresogi, glanhau, teithio, llety, trydan, hyfforddiant, gwasanaethau iechyd galwedigaethol ac ati). Yn dilyn rhagolwg Ch1, cyfarfûm â Grŵp y Prif Swyddogion lle cytunwyd ar ostyngiad pellach o £0.8m yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn ac atgyfnerthu'r rheolaethau presennol ynghylch goramser a theithio a gwestai nad ydynt yn hanfodol.
- 2.5 Y cyfeiriad yn y Pwyllgor Perfformiad a Chyflawni ym mis Medi oedd lleihau ein rhagolwg canol blwyddyn gan £5m. Mae newid mor sylweddol yng nghanol y flwyddyn yn rhwystredig oherwydd mae ein diffyg sicrwydd cyllidebol wedi'i ddeall yn dda ers peth amser. Hyd yn oed gyda'r mesurau mwyaf eithafol megis rhewi recriwtio, mae'n annhebygol iawn o gael ei gyflawni. Rydym bellach wedi rhoi'r gorau i'r rhan fwyaf o waith heb gwmpas cyllidebol cysylltiedig (Trwsio'r Hanfodion, Llesiant a Safonau Proffesiynol) a byddwn yn canolbwyntio mwy ar symudiadau cynllunio'r gweithlu i leihau'r tan-adennill incwm sy'n cyfrannu. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael effaith ystyrlon ar ein rhagolwg – yn syml, mae wedi ei atal rhag tyfu. Cyflwynwyd y cynigion hyn y llynedd i'r Awdurdod fel categorïau gweithgareddau y tu hwnt i'n cyllideb, gan ei gwneud yn glir na fyddem yn barod i effeithio ar ein cyflawniad gweithredol craidd i sicrhau eu buddsoddiad. Roedd hyn ar y sail y cytunwyd ar arian wrth gefn. Nawr, rydym wedi dilyn yr un rhagosodiad i ddiogelu BTP rhag mesurau sy'n cael mwy o effaith weithredol megis atal neu arafu recriwtio.
- 2.6 Fodd bynnag, os cawn gyfarwyddyd i wneud gwahaniaeth sylweddol i'r gorwariant a ragwelir, rhoi'r gorau i recriwtio yw'r unig opsiwn ymarferol sydd ar ôl. Pe byddem yn stopio nawr, yn seiliedig ar ein trosiant a'r derbyniadau lle nad yw cynigion amodol wedi'u hanfon at ymgeiswyr eisoes, gallem leihau nifer y staff gan **274**, erbyn mis Ebrill 2024. Byddai'n arbed £2.8m yn unig i ni yn erbyn ein gorwariant a ragwelwyd. Byddai arafu recriwtio yn arbed hyd yn oed llai. Byddai'r ddau fesur hyn yn achosi risg weithredol, enw da a gwleidyddol sylweddol. Byddai'r effaith weithredol yn cael ei themlo'n bennaf y flwyddyn nesaf, pan fydd y nifer o swyddogion sy'n cwblhau eu hyfforddiant ac yn cael eu postio i'r Is-adran yn dod i ben am gyfnod hir o amser. Gallai olygu na allwn gyflawni

ein Strategaeth a Chynllun Plismona gyda chymaint yn llai o staff. Byddai hefyd yn gwneud nifer o swyddi heddlu ar y rhwydwaith yn anghynladwy a fyddai'n gofyn am resymoli lleoliadau gweithredu ac effaith andwyol ar berfformiad. Byddai pum gorsaf yn cael eu hasesu ac yn cael eu hystyried ar gyfer eu cau o fis Ebrill 2024, yn dibynnu ar lefel y lleoedd gwag. Gallai swyddogaethau hanfodol staff yr heddlu ddod yn anhyfyw yn gyflym, yn dibynnu ar ble mae trosiant yn digwydd. Er mwyn adennill cryfder y gweithlu sydd gennym heddiw byddai'n cymryd 27 mis. Byddai'n ein gosod yn groes i ymrwymiad pob un o Heddluoedd y Swyddfa Gartref a'r Llywodraeth Ganolog i blismona, gan osod BTP fel eithriad yn y teulu plismona.

- 2.7 Yn y Pwyllgor Perfformiad a Chyflawni awgrymwyd y byddai unrhyw benderfyniadau a wneir i liniaru pwysau ariannol yn ôl y gyllideb y cytunwyd arni ym mis Rhagfyr 2022 yn cael eu gwneud ar lefel y Swyddog Cyfrifyddu ac na ddylai fod angen ymyrraeth yr Awdurdod Llawn. Nid wyf yn cytuno â hyn. Os oes anghytundeb rhyngof i a'r Prif Weithredwr a chan ystyried y risgiau gweithredol ac enw da sylweddol sy'n gysylltiedig â'r cyfeiriad cyllido a gynigir yn ystod y flwyddyn gan y Pwyllgor, yna rwyf o'r farn y dylai hwn fod yn benderfyniad gan Awdurdod yr Heddlu.
- 2.8 Mae talu'r gost o blismona'r rheilffordd yn gyfan gwbl o fewn gallu Awdurdod yr Heddlu.

### **3. LLU AR SYMUD (AFOTM)**

- 3.1 Mae ein portffolio trawsnewid yn parhau i ddarparu buddion ac arbedion effeithlonrwydd mesuradwy i ailfuddsoddi lle byddant yn cael yr effaith fwyaf ar ein hamcanion ac er budd y sector rheilffyrdd cyfan. Yn unol ag adborth cadarnhaol diweddar gan GIAA bod 'offer effeithiol wedi'u datblygu i gefnogi'r gwaith o nodi a dosbarthu buddion sy'n deillio o brosiectau', rydym yn manteisio ar Strategaeth Rheoli Buddion (BMS) newydd i fonitro ac adrodd ar arbedion arian parod a buddion ehangach. Mae'r BMS yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu Fframwaith Effeithlonrwydd newydd y Llywodraeth. Mae'r rhaglen yn destun gweithdai parhaus, a gynhelir gan Arweinydd Gwireddu Buddion sydd newydd ei benodi, ac mae bellach yn rhan allweddol o'r adolygiadau SRO a arweinir gan DCC.
- 3.2 Mae'r buddion allweddol hyd yma eleni yn cynnwys arbedion ail-gydbwysu AFOTM o £14.1m dros oes y cynllun ariannol o'n hadolygiadau Haenau a Rychwantau ac CT. Mae adleoli staff o Portland St i Manchester Peninsula hefyd wedi sicrhau budd o £234k o ddechrau'r flwyddyn ariannol hon. Mae cymeradwyaethau achos busnes AFOTM diweddar wedi cynnwys y Porth Cudd-wybodaeth Niche sy'n golygu arbedion cynhyrchiant yn y dyfodol. Rydym yn parhau i olrhain cyfanswm Buddion Arbedion Costau Prosiect YTD trwy ddefnyddio Dronau i ddigwyddiadau tarfu sydd ar hyn o bryd yn dod i oddeutu £5.5m. Mae arbedion o oddeutu £60k wedi'u cofnodi ar gyfer 2023-24

yn ein traciwr treigl Mae Pob Ceiniog yn Cyfri (EPC) (yn ogystal â'r £730k a drosglwyddwyd fel arbedion cylchol o waelodlin 2022-23 pan ddechreuodd y fenter EPC).

- 3.3 Mae aelodau wedi cael eu briffio ar ein prosiect Canolfan Strategol a fydd yn darparu cylch cynllunio integredig ar gyfer y Llu, yn mynd i'r afael â datgysylltiadau strategol, dyblygu a materion llywodraethu. Bydd yn cyflwyno achos busnes cynaliadwy a dyluniad ar gyfer Canolbwynt Strategol BTP. Bydd yr Offeryn Cynllunio Capasiti (CPT) newydd yn darparu dewisiadau ar sail tystiolaeth - ar gyfer ail-fuddsoddi a hefyd opsiynau ail-gydbwysu.

#### **4. YMGYNGHORIAD AR GAU SWYDDFEYDD TOCYNNAU**

- 4.1 Agorodd yr ymgynghoriad proffil uchel ar Gau Swyddfeydd Tocynnau ar 5 Gorffennaf 2023 ac i ddechrau roedd i fod i redeg am dair wythnos, gan gwmpasu 974 o swyddfeydd tocynnau. Hysbyswyd BTP yn ffurfiol ar 4 Gorffennaf 2023. Yn dilyn hynny, estynnwyd y dyddiad cau gwreiddiol o 26 Gorffennaf 2023 gan yr Adran Drafnidiaeth yn dilyn cwynion nad oedd hyn yn ddigon o amser, ac nad oedd rhai TOCs wedi dilyn y broses yn gywir.
- 4.2 Ymatebodd BTP i'r ymgynghoriad ar gau Swyddfeydd Tocynnau ar 1 Medi 2023 ac mae wedi cael ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth am ei ymateb i'r ymgynghoriad. Mae modd datgelu ein llythyrau at y ddau gorff teithwyr.
- 4.3 Daeth mwy na 680,000 o ymatebion i law yn y pen draw gan y ddau gorff teithwyr, London Travel Watch (LTW) a Transport Focus (TF) yn dilyn ymgyrchoedd a gafodd lawer o gyhoedduswydd gan yr undebau rheilffyrdd a'r Daily Mirror a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiffyg asesiadau risg o gwmpas pobl agored i niwed sy'n defnyddio'r rhwydwaith. Fe fu BTP yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r Adran Drafnidiaeth, LTW, TF ac RDG i ddatblygu system o asesiadau risg plismona a diogelwch a fydd yn cael ei chwblhau gan y gweithredwyr a'i hapsamplu gan yr Adran Drafnidiaeth gyda chyfraniad gan BTP.
- 4.4 Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r cyrff teithwyr, yr Adran Drafnidiaeth a'r Grŵp Datblygu Rhanbarthol wrth i'r ymgynghoriad ddechrau ar ei gam nesaf (5 wythnos ar gyfer adolygiad ar hyn o bryd ond yn debygol o ymestyn oherwydd nifer yr ymatebion a dderbyniwyd). Rwy'n ddiolchgar i Mike Furness, Johnny Shilton a Dom Ioannou am eu gwaith cyflym ar hyn a'u cymorth i'r Adran Drafnidiaeth.

#### **5. Ymweliad Y Gwir Anrhydeddus MARK HARPER AS**

- 5.1 Ymwelodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Mark Harper AS, ag un o'n gweithrediadau yng ngorsaf Ealing Broadway ar 5 Awst 2023 a threuliodd dros bedair

awr gyda'n timau rheng flaen. Mae wedi bod yn arbennig o awyddus i arsylwi ein gweithrediadau yn uniongyrchol, gyda diddordeb arbennig yn y gwaith dillad plaen y mae ein swyddogion yn ei wneud i atal trais yn erbyn menywod a merched ar y rhwydwaith.

- 5.2 Roedd hwn yn ymgyrch ar y cyd â Heddlu Llundain, a roddodd fewnwelediad gwerthfawr iddo i'n rôl blismona arbenigol fel Gwarcheidwaid y Rheilffordd. Cafwyd cyfanswm o 64 o achosion o stopio a chwilio, pump arestiad, 23 chwiliad cadarnhaol a naw cyfrif stopio.
- 5.3 Aeth yr ymweliad yn dda, ac anfonwyd e-bost at Mr Harper wedyn i ddweud ei bod wedi bod yn hynod ddefnyddiol iddo weld yn uniongyrchol pa mor anodd yw plismona. Roedd hyn yn enghraifft arall o'r berthynas gref a ddatblygwyd rhwng BTP a'r Adran Drafnidiaeth.

## 6. YMGYRCH 'ALERT'

- 6.1 Mae amlygrwydd yn golygu lefelau uwch o ymddiriedaeth a hyder. Mae adnewyddu Ymgyrch Alert yn ystod yr adegau prysuraf yn hanfodol i hyn ar draws Plismona'r Rhwydwaith. Y chwarter hwn, bu 9469 o batrolau Ymgyrch Alert, gyda 250 o arestiadau, 412 o achosion o stopio a chwilio wedi'u cwblhau, a 29 o arfau wedi'u hadennill.
- 6.2 Yn yr Alban, mae patrolau ar drenau ac Ymgyrch Alert wedi bod yn arf effeithiol ers mis Ebrill 2023. Fe fu nifer o batrolau ar y trê'n o Glasgow Queen Street a Glasgow Central i leoliadau megis Partick, Paisley, Dalmarnock, Glasgow Subway a gorsafoedd eraill ar y llinellau hyn. Mae rheolwyr lleol wedi amlygu hyder gwell yn BTP dros y chwarter diwethaf.

## 7. ARGYFWNG IECHYD MEDDWL I OFAL

- 7.1 Mae Gofal Cywir, Person Cywir (RCRP) yn fodel gweithredol a ddatblygwyd gan Heddlu Glannau Humber sy'n newid y ffordd y mae'r gwasanaethau brys yn ymateb i alwadau sy'n ymwneud â phryderon am iechyd meddwl. Lanswyd y model hwn gan yr NPCC a'r Coleg Plismona, a'u huchelgais yw y bydd pob heddlu yn ei weithredu.
- 7.2 Cyhoeddais [Flog](#) ym mis Gorffennaf a oedd yn nodi fy safbwynt yn y maes hwn. I grynhoi, ni fydd BTP yn gweithredu RCRP yn ei gyfanrwydd, gan fod natur ein hamgylchedd gweithredu yn golygu bod ymyrraeth gynnar gyda'r rhai mewn argyfwng yn bwysig, nid yn unig i ddiogelu'r person hwnnw ond yn hollbwysig i leihau unrhyw amhariad posibl ar y rheilffordd. Mae gennym orgyffwrdd awdurdodaethol â 44 o luoedd eraill a rhaid i ni ymgysylltu â 54 o ymddiriedolaethau iechyd meddwl ac 11 o ymddiriedolaethau ambiwlans. Nid ydym yn derbyn galwadau i wasanaeth yn yr un modd â lluoedd eraill ac nid oes adrannau brys na mannau diogel ar awdurdodaeth y rheilffyrdd.

7.3 Mae helpu'r rhai mewn argyfwng ar flaen y gad o ran pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud, ac mae ein prosiect ein hunain ar y gweill yn BTP - "Argyfwng Iechyd Meddwl i Ofal". Bydd y prosiect hwn yn darparu adolygiad cyflawn o'r ffordd rydym yn ymateb i ddiwyddiadau iechyd meddwl, gan sicrhau bod ein hymateb yn gynaliadwy ac yn effeithiol, tra'n cydnabod ein hamgylchedd unigryw ac anghenion ein lleoliadau gwahanol niferus.

## 8. CYNHWYSIANT AC AMRYWIAETH (C ac A)

8.1 Mae'r Tîm C ac A wedi parhau i gefnogi cydweithwyr trwy Genhadon Gweithredu Cadarnhaol, Hyrwyddwyr C ac A, cyfres o becynnau cymorth a chymorth ar gyfer niwroamrywiaeth, ac opsiynau addysg a dysgu eang ar gyfer rheolwyr a chydweithwyr. Prosiect a lansiwyd yn ddiweddar gan y Tîm C ac A yw'r Grŵp Cymorth Gweithredu Cadarnhaol (170 o aelodau) sy'n cynnig cyfleoedd datblygu, cymorth, hyfforddiant a dysgu i'r rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

8.2 Roeddem yn cydnabod bod angen gweithredu ymhellach ar y cynnydd gyda Chynllun Gweithredu Hil yr Heddlu, felly gwnaethom adnewyddu perchnogaeth ar y prif bethau i'w cyflawni a chynnwys craffu a chymorth allanol lle y bo'n briodol i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r materion sy'n ymwneud â gwrth-hiliaeth, anghymesuredd, ac effaith plismona. ar bobl Ddu.

8.3 Denodd y Cynllun Mynediad Carlam Ditectif Gwnstabl 250 o ymgeiswyr ar draws 3 ymgyrch gyda 120 o ymgeiswyr benywaidd (48%), sydd oddeutu 4 gwaith yn fwy na'r gynrychiolaeth a welwyd o fewn recriwtio safonol. Yn ogystal, roedd 58 o ymgeiswyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sy'n rhoi cynrychiolaeth ar 23%, sy'n uwch na'r cyfartaledd arferol o 14%. Roedd llawer o'r ymgeiswyr benywaidd hefyd o Leiafrifoedd Ethnig, sy'n dangos cyrhaeddiad croestoriadol eang y cynllun.

## 9. Y BROSES DDYRCHAFU

9.1 Roedd adborth gan yr APS (2021) a chan Gymdeithasau Cymorth Cyflogaion yn nodi bod diffyg ymddiriedaeth yn y broses ddyrchafu swyddogion yn ogystal â chanfyddiad o ragfarn a nepotiaeth. Ein huchelgais yw bod yn sefydliad sy'n cael ei arwain yn dda, yn meddu ar adnoddau da, yn derbyn gofal da a lle mae ein pobl yn ymddiried yn nhegwch y broses ddyrchafu.

9.2 Yn 2023 lansiwyd y broses newydd gyntaf, Cwnstabl i Ringyll. Fel proses newydd roedd gwersi i'w dysgu ond roedd yr ymateb gan mwyaf yn ategu'r broses newydd a chofnododd Arolwg Pawb 2023 gynnydd o 8% mewn hyder yn seiliedig ar yr un broses a gwblhawyd hyd yma. O'r 106 o swyddogion a basiodd roedd 24% yn fenywod a 13% yn lleiafrifoedd ethnig.



- 9.3 Rydym bellach yn parhau i gyflwyno'r broses ar gyfer rhengoedd dilynol ar yr un pryd – Rhingyll i Arolygydd, Arolygydd i Brif Arolygydd, Prif Arolygydd i Uwcharolygydd. Ar 12 Medi 2023, daeth y cyfnod ymgeisio i ben gyda chyfanswm o 130 o geisiadau. Bydd 30 diwrnod o fyrddau yn cael eu cynnal dros fis Medi a mis Hydref yn Glasgow, Llundain a Birmingham.

## 10. DIWEDDARIAD AR YSTADAU

- 10.1 Cyflwynodd y Llu ddiweddariad cynhwysfawr ar sefyllfa arfaethedig ein Hyb Rhanbarthol newydd ar un safle yn Llundain ar 5 Medi 2023. Mae'r safle yn 200 BPR (Buckingham Place Road) yn gyrru'r gwaith o drawsnewid Ystad Llundain BTP ymlaen sy'n cyd-fynd â'n Cynllun Strategol. Bydd yn darparu'r presenoldeb a'r ymateb gofynnol ochr yn ochr â llety modern ac effeithlon.
- 10.2 Bydd Cynnig Hyb Rhanbarthol Llundain 200 BPR yn cyd-fynd â'r agenda Ffyniant Bro ac amcanion Lleoedd ar gyfer Twf, gan ddarparu 'cartref' newydd o fewn un safle i'n gweithlu fod yn falch ohono.
- 10.3 Ar 15 Medi 2023, mynychodd Kenna Kintrea ac Andy Cooper weithdy gyda'r arweinwyr Ystadau a Chyllid, i gefnogi datblygiad yr achos busnes llawn. Y camau nesaf ar gyfer y prosiect, sy'n dilyn amserlen dynn iawn, yw cael cymeradwyaeth y Byrddau mewnol perthnasol, gan gynnwys cael cymeradwyaeth derfynol i symud ymlaen gan BTPA drwy ohebiaeth. Bydd hyn yn caniatáu i gyfres o gamau gweithredu gael eu datblygu i sicrhau defnyddio 200 BPR ym mis Tachwedd 2024.

## 11. DIWEDDARIAD AR DECHNOLEG GWYBODAETH

- 11.1 Yn anffodus, mae Amy Wilson (Pennaeth Gweithle Digidol) a Craig Ellis (Dirprwy Brif Swyddog Gwybodaeth) o'r UDA Technoleg wedi sicrhau cyfleoedd newydd y tu allan i BTP. Ar ôl i'r ddau ymuno yn ystod haf 2020, mae Amy a Craig wedi chwarae rhan enfawr yn y newid yn yr Adran Dechnoleg. Yn naturiol byddant yn golled fawr i'r Adran. Byddaf yn gweithio'n agos gyda Caroline ar y camau nesaf a'r broses recriwtio.
- 11.2 Lansiodd yr Adran Dechnoleg strwythur Trwsio'r Hanfodion ym mis Ionawr 2023. Mae'r sefydliad bellach dros 87% am y tro cyntaf ers yr ymgynghoriad yn ôl yn 2022.
- 11.3 Dechreuodd adolygiad y Fframwaith Sgiliau ar gyfer yr Oes Wybodaeth (SFIA) hefyd ym mis Ionawr. Bydd hyn yn gweld pob disgrifiad swydd yn adlewyrchu gwir gwmpas pob rôl, gan gynnwys technolegau, sgiliau a chymwyseddau cyfoes.
- 11.4 Mae'r prosiect Adleoli'r Ganolfan Ddata yn mynd rhagddo'n dda a bydd yn cynyddu gwytnwch technegol, wrth fod yn alluogwr hollbwysig ar gyfer adleoli diogel o FHQ. Mae technoleg diwedd oes yn cael ei disodli ac mae'r cynllun mudo ar y gweill. Bydd hyn yn



Security Classification and Handling Instructions of document are detailed on page 1

darparu parhad busnes cryfach a gwell adferiad ar ôl trychineb gan leihau unrhyw amser segur.

## **12. ARGYMHELLION**

12.1 Bod cynnwys yr adroddiad hwn yn cael ei nodi gan yr Aelodau.